**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 13 Medi 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Delyth Jones<br>Byddai'r Cynghorydd Win Mullen-James yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Brian Jones – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen: Newidiadau arfaethedig i Dabl Ffioedd Cerbydau Hacni. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI | ***PENDERFYNWYD****, trwy bleidlais fwyafrifol –*<br><br>*(a) bod yr Aelodau'n cyfarwyddo'r swyddogion i ymgynghori ar weithredu cynnydd i'r tariff o 5% (wedi'i dalgrynnu i'r ganran gyfan agosaf) yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro;*<br><br>*(b) awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â hysbysiad statudol sydd â dyddiad gweithredu o leiaf 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, a*<br><br>*(c) rhoi cyfarwyddyd i swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu os ceir unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol.* |
| **6** | IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG | ***PENDERFYNWYD*** *–*<br><br>*(a) bod Is-ddeddfau Enghreifftiol arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth (fel a nodir yn Atodiad A yr adroddiad) yn cael eu cefnogi, a* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 13 Medi 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) rhoi awdurdod i swyddogion ddechrau ymgynghoriad ffurfiol gyda phob perchennog cerbyd hacni a gyrwyr trwyddedig.* |
| **7** | ADOLYGU GOFYNION MEDDYGOL GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *–*<br><br>*(a) rhoi awdurdod i swyddogion ymgynghori â gyrwyr trwyddedig a gweithredwyr a pherchnogion trwyddedig ynghylch gweithredu safonau meddygol Grŵp 2; a*<br><br>*(b) lle na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori, rhoi awdurdod i swyddogion weithredu gofyniad am dystysgrifau meddygol Grŵp 2 ar gyfer gyrwyr trwyddedig fel a nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad, a ddaw i rym o 1 Rhagfyr 2023 ar gyfer ymgeiswyr newydd, ac 1 Mehefin 2024 ar gyfer deiliaid trwydded presennol, a*<br><br>*(c) os bydd unrhyw un yn gwrthwynebu'r cynigion yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd swyddogion yn cael cyfarwyddyd i baratoi adroddiad i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2023 | ***PENDERFYNWYD*** *–*<br><br>*(a) nodi cynnwys yr adroddiad, a*<br><br>*(b) chymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig ar gyfer 2023 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr Adroddiad.* |
| **9** | CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn amodol ar amodau ychwanegol fel y nodwyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad.* |